# Crynodeb Gweithredol: Hunanasesiad o Berfformiad, o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025

Ynghyd â'n Hadroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad o fis Ebrill i fis Medi, a mis Hydref i fis Mawrth, mae'r ddogfen hon yn llunio ein Hunanasesiad sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n grynodeb diwedd blwyddyn hwylus o'n perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau allweddol ac yn benodol ein Hamcanion Lles (y cyfeirir atynt hefyd fel ein Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol) a'r saith maes llywodraethu. Mae'r dystiolaeth y tu ôl i'r canlyniadau yn y ddogfen i'w chael yn yr adroddiadau perfformiad cysylltiedig.

**This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae croeso i chi gael y ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille. Cysylltwch â'r Tîm Perfformiad a Gwella (mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar y dudalen nesaf).**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Mae arnom eisiau clywed eich barn!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch. A yw ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned, ac a ydym yn gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r gwasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i www.conwy.gov.uk/arwyddio

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

# Cynnwys

Mae arnom eisiau clywed eich barn! .......... 2
Pobl Ifanc .......... 2
I gael y wybodaeth ddiweddaraf: .......... 3
Cynnwys .......... 4
Ein Dull Hunanasesu .......... 5
Pa mor dda ydym ni'n ei wneud ar y cyfan? .......... 6
Perfformiad - Amcanion: Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 .......... 8
1. Cyngor Gwydn .......... 8
2. Yr Amgylchedd .......... 8
3. Ffyniant a Dysg .......... 9
4. Tai .......... 9
5. Lles .......... 10
6. Swyddogaethau Llywodraethu .......... 10
6.1. Cynllunio Corfforaethol .......... 10
6.2. Cynllunio Ariannol .......... 11
6.3. Rheoli Perfformiad .......... 11
6.4. Rheoli Risg .......... 11
6.5. Cynllunio'r Gweithlu .......... 12
6.6. Asedau .......... 12
6.7. Caffael .......... 13

# Ein Dull Hunanasesu

Rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon a’r adroddiadau perfformiad sy’n cyd-fynd â hi yn gasgliad ac asesiad gwerthfawr o bopeth rydym wedi’i wneud yn ystod 2024 i 2025. Rydym wedi ceisio ysgrifennu’r adroddiadau hyn mewn ffordd ddifyr, hawdd eu darllen, wrth sicrhau eu bod yn gywir fel adroddiadau perfformiad. Maen nhw’n parhau i fodloni safonau hygyrchedd ac yn darparu naratif ar ein mesuryddion perfformiad (yn cynnwys dadansoddi patrymau) a gweithgareddau allweddol. Gobeithio eu bod yn grynodeb cytbwys, hawdd ei amgyffred o straeon newyddion allweddol a’r gweithgareddau a gyflawnwyd gan ein prif bwyllgorau (Y Cyngor, Cabinet, Craffu a Llywodraethu ac Archwilio). Rydym hefyd wedi cynnwys adroddiadau wedi’u cyflawni gan ein rheoleiddwyr.

Mae’r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi trosolwg beirniadol o’r dystiolaeth a gasglwyd yn ein prif adroddiadau ar berfformiad (o fis Ebrill 2024 i fis Medi 2024, ac o fis Hydref 2024 i fis Mawrth 2025) ac i ba raddau mae ein perfformiad yn creu canlyniadau cadarnhaol a pha mor dda mae ein trefniadau llywodraethu’n cefnogi gwelliant parhaus. Mae’r crynodeb hwn hefyd yn edrych tua’r dyfodol ar gyfleoedd a heriau allweddol. Mae’r tri adroddiad yn ymateb i ofynion perfformiad y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae’n cyflwyno darlun amlwg o ‘iechyd corfforaethol’ cyffredinol y sefydliad.

Mae cyhoeddi’r adroddiad hwn yn nodi cerrig milltir i ni, gan ein bod yn adrodd nid yn unig ar Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi’i ddiweddaru i gefnogi’r Cynllun Corfforaethol diwygiedig a gymeradwywyd ym mis Chwefror; ond hefyd mae’n nodi ein bod wedi cyflawni ein hymdrechion i baratoi ein hadroddiadau perfformiad yn gynt fel eu bod yn fwy defnyddiol. Yn y dyfodol, bydd yr adroddiadau hyn yn parhau i gofnodi cynnydd nid yn unig yn erbyn ein gweithgaredd Cynllun Corfforaethol allweddol ond hefyd unrhyw weithgaredd gwelliant sy’n deillio o’r adroddiadau (sy’n ofynnol o dan y ddeddf) ac unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt wrth ymateb i weithgaredd rheoleiddio neu her cyfoedion. Mae’r adroddiadau hefyd yn helpu i gasglu themâu o welliannau sy’n codi o’n proses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth sydd eto’n gnewyllyn pwysig yn ein fframwaith rheoli perfformiad ac yn sicrhau ein bod yn sefydliad sy’n hunanasesu’n barhaus. Rydym hefyd yn gobeithio gallu cyflwyno data newydd defnyddwyr gwasanaeth yn hwyrach eleni.

I weld cyn Adroddiadau Hunanasesu Perfformiad, ewch i [www.conwy.gov.uk/Perfformiad](http://www.conwy.gov.uk/Perfformiad).

## Pa mor dda ydym ni'n ei wneud ar y cyfan?

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i fod yn anodd yn ariannol i ni fel Cyngor, ac mae aelodau a swyddogion wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn i sicrhau ein bod yn rheoli ein sefyllfa cyllideb ar gyfer 2024 i 2025; ac yn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025 i 2026. Yn 2024 i 2025, wynebwyd pwysau sylweddol ar y galw am wasanaethau ac roedd y gwariant yn fwy na'r gyllideb mewn sawl maes, yn enwedig gofal cymdeithasol, addysg, yr amgylchedd, ffyrdd a chyfleusterau a thai. Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian untro ychwanegol ac ynghyd â gostyngiad mewn rheoli'r trysorlys a chostau corfforaethol eraill, cafodd ein holl wariant ei gynnwys yn ein hincwm. Fodd bynnag, gwyddom na fydd yr hinsawdd ariannol anodd bresennol yn diflannu'n fuan iawn, ac mae arnom angen parhau i fod yn barod fel awdurdod i wneud penderfyniadau anodd. Mae ein rhagolygon tymor canolig presennol yn darogan diffyg o £20.5 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2026 i 2027 a £19 miliwn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r isod yn crynhoi ein perfformiad a'n prosesau llywodraethu dros y flwyddyn mewn ambell sylw am ein cryfderau a'n gwendidau, a chyfleoedd a heriau.

1. Ar y cyfan rydym wedi gwneud llawer o waith da wrth geisio cefnogi ein blaenoriaethau corfforaethol. Rydym wedi parhau i ymateb yn gyfrifol i'r pwysau ariannol y mae'r holl awdurdodau lleol yn ei wynebu ac wedi gwneud defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o'n hadnoddau. Mae ein prosesau llywodraethu yn gynhwysfawr; ac mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Strwythur Uwch Reolwyr yn parhau i weithio'n dda.
2. Rydym wedi adolygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer yr awdurdod, sy'n ceisio ymdrin â'n gwytnwch ariannol yn gyntaf oll. Rydym hefyd wedi aildrefnu ein nodau fel eu bod yn cyd-fynd yn gliriach â'n blaenoriaethau, a'r adnoddau sydd gennym ar gael.
3. Rydym yn cynnal ein hymrwymiad i'r amgylchedd gan weithio i fynd i'r afael â'n ôl-troed carbon a'r argyfwng hinsawdd. Rydym wedi datblygu nifer o fentrau allweddol yn ystod y cyfnod hwn, ac wedi cael ein cydnabod eto gan Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd; fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud eto i gyrraedd sero net erbyn 2030 a'n bod yn dibynnu ar gyllid allanol i ddatblygu prosiectau.
4. Rydym wedi denu £8.9 miliwn o gyllid allanol i gefnogi adfywio, celf a threftadaeth, busnesau a chymunedau ac wedi darparu nifer o brosiectau trawsnewidiol pwysig mewn partneriaeth â llywodraethau Cymru a'r DU. Rydym yn arbennig o falch ein bod

wedi sicrhau cyllid ychwanegol i ddarparu gwelliannau i Venue Cymru i ddatblygu Canolbwynt Creadigol a chyfleusterau newydd.

5. Mae ein prosesau llywodraethu tai bellach yn gryfach ac rydym yn parhau i wneud cynnydd da wrth ddarparu ein Strategaeth Tai, yn gwneud gwaith da i ddefnyddio eiddo gwag unwaith eto, a sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael. Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau i geisio atal digartrefedd er ein bod yn cydnabod y pwysau parhaus sy'n bodoli yn y maes hwn.
6. Mae diogelu'n parhau i fod yn flaenoriaeth gref yn ein sefydliad. Yn benodol rydym yn darparu gwaith trawsffurfiol cyffrous a sylweddol iawn ym maes gofal plant. Rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol ers y pandemig ac wrth gwrs yr argyfwng costau byw yn enwedig mewn Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen drawsnewid ac yn edrych ar gyfleoedd i gydweithio gyda'n partneriaid pan fydd hynny'n briodol, i wneud y mwyaf o adnoddau i ymdrin â'r problemau hyn.
7. Yn ystod 2024 i 2025, rydym wedi parhau i hyrwyddo diwylliant ac ethos cryf yn ein sefydliad sy'n cefnogi dysgu Cymraeg, sy'n cynnwys cyhoeddi ein strategaeth newydd, Ein Llais Cymraeg 2024 i 2029. Mae gennym hefyd gynllun amlwg i gefnogi'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg ac yn gweld cynnydd calonogol yn nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.
8. Mae enghreifftiau o ymgysylltu cyhoeddus da ledled y sefydliad yn enwedig o gwmpas y gyllideb a byddwn yn parhau i ystyried y ffordd y byddwn yn cynnal ymarferion ymgysylltu effeithiol ac ystyriol gyda budd-ddeiliaid yn gyson.
9. Mae ein Cynllun Conwy Gynhwysol yn gam pwysig i gyflawni cynhwysiant gwell yn ein sefydliad a'r sir, ond rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud a bod heriau gwirioneddol yn y maes hwn.
10. Rydym yn gwneud gwaith da i gefnogi datblygiad a lles staff, ond yn cydnabod bod gennym gyfradd uchel o absenoldeb oherwydd salwch, yn enwedig oherwydd straen a gorbryder. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi'n dda a bod y sefydliad cyfan yn gwrando arnyn nhw.
11. Rydym wedi dangos ein bod yn rhagweithiol yn y ffordd yr ydym yn rheoli asedau allweddol yn cynnwys trosglwyddo neu waredu. Mae'n debygol y bydd cyfyngiadau ariannol yn cael effaith negyddol ar ein gallu i gynnal ein hasedau ac i fuddsoddi yn y dyfodol. Dylid canmol ein gwaith i roi datrysiad un swyddfa ar waith drwy Ran 2 ein Strategaeth Gofod Swyddfa hefyd - darn sylweddol o waith gyda chymhlethdodau gweinyddol a logistaidd mawr.
12. Rydym yn adolygu os yw'r systemau a'r prosesau presennol yn briodol ac yn gymesur ag anghenion presennol y sefydliad. Er bod llai o allu i gyflawni, mae yna gyfleoedd

parhaus i ystyried ffyrdd trawsnewidiol newydd o weithio, lleihau biwrocratiaeth, gweithio mewn partneriaeth a defnyddio technolegau newydd. Byddwn yn parhau i ymdrechu i fod yn fwy hyblyg wrth adnabod a datrys rhwystrau i gynnydd ac yn sicrhau ein bod yn parhau'n wydn.

## Perfformiad - Amcanion:  Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027

### 1. Cyngor Gwydn

Mae'r naratif trwy'r holl grynodeb a'r adroddiadau Hunanasesu yn glir iawn o ran yr heriau ariannol sydd o'n blaenau. Mae'r sefyllfa'n ddifrifol iawn ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau cynaliadwyedd parhaus y Cyngor fel sefydliad. Yn ystod y flwyddyn 2024 i 2025, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol ar hyn, sy'n cynnwys aildrefnu ein Cynllun Corfforaethol i ganolbwyntio ar wytnwch ariannol. Rydym hefyd wedi cymeradwyo ein Cynllun cefnogi Gwytnwch yn dilyn gweithio gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i adolygu meysydd o wariant allweddol yn drylwyr yn ogystal ag edrych ar brosesau busnes ac atebion digidol i leihau gwariant. Rydym hefyd wedi rhoi prosesau pwysig ar waith i reoli gwariant a swyddi gweigion. Nid yw'r her ariannol yn mynd i ddiflannu'n fuan iawn, gan ein bod yn rhagweld pwysau o tua £20 miliwn ar gyfer 2026 i 2027 ac eto yn 2027 i 2028. Bydd ein gwytnwch yn y dyfodol yn dibynnu'n llwyr ar lefel y cyllid gan y llywodraeth a'n gallu i wneud penderfyniadau anodd dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf i sicrhau cynaliadwyedd parhaus. Mae mewnbwn parhaus a negeseuon clir i'r cyhoedd a'r staff trwy gydol y cyfnod hwn yn hanfodol ac mae'n rhaid bod yn arbennig o ystyriol o les.

### 2. Yr Amgylchedd

Rydym yn parhau i gyflawni gwaith gwych i gefnogi'r Amgylchedd, yn arbennig drwy ein gwaith lliniaru llifogydd; cefnogi bioamrywiaeth; gwella ansawdd dŵr; a mentrau ailgylchu, yn cynnwys dylanwadu ar ymddygiad ailgylchu cadarnhaol. Mae Archwilio Cymru wedi'n canmol am gael gwasanaeth gwastraff effeithiol ac effeithlon. Rydym yn parhau i ymrwymo i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a Natur ac yn y cyfnod diwethaf hwn rydym wedi cymeradwyo ein Strategaeth Mannau Gwefru Cerbydau Trydan. Mae gwaith datgarboneiddio hefyd wedi'i gyflawni mewn sawl ysgol. Mae gweithgareddau'r Cynllun Corfforaethol yn datblygu heb unrhyw bryderon ar hyn o bryd ac mae mesurau allweddol yn darparu darlun cadarnhaol. Roeddem yn falch o gyhoeddi ym mis Ebrill 2024 ein bod wedi cadw ardystiad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5 am y ddegfed flwyddyn

yn olynol. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo'r manteision lles gyda mynediad at amgylchedd glân a deniadol gan barhau ein gwaith da i ddatblygu teithio llesol ymhellach ac ati. Mae'r her yn parhau i gyflawni carbon sero net, sy'n dibynnu ar gyllid i gefnogi prosiectau.

## 3. Ffyniant a Dysg

Rydym yn gwneud llawer i gefnogi busnesau lleol a'r economi gan ddarparu nid yn unig cyngor i fusnesau a chefnogaeth ond hefyd yn helpu trwy amryw o gynlluniau grant. Rydym wedi atynnu tua £8.9 miliwn mewn cyllid allanol i gefnogi adfywio, celf a threftadaeth, busnesau a chymunedau. Gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth y DU, rydym wedi datblygu prosiectau allweddol i gefnogi adfywio a thwristiaeth, ac wedi cefnogi cymunedau a busnesau ym mhob rhan o'r sir. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi digwyddiadau lleol er budd cymunedau a'r economi, er bod ein her fwyaf yn parhau - dod o hyd i ddigon o gyllid i gefnogi ein dyheadau. Rydym yn darparu cefnogaeth hanfodol i gyflogaeth a gwaith ymgysylltu ag ieuenctid, megis drwy ein digwyddiadau i ofalwyr a gwaith y Gwasanaeth Cyflogaeth a Gwasanaethau Ieuenctid. Rydym yn dal i wneud cynnydd rhagorol gyda'n darpariaeth a'n gweithgaredd i gefnogi addysg a sgiliau, ond mae heriau sylweddol yn parhau sy'n effeithio ar bobl ifanc, yn enwedig gyda phresenoldeb ac ymddygiad. Mae canran y bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ac nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yn parhau i fod yn faes pwyslais pwysig i ni. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i sicrhau cynaliadwyedd parhaus darpariaeth addysg, ysgolion a'n portffolio adeiladau ysgolion. Rydym wedi symud ymlaen i uno ysgolion, wedi cytuno ar fodel gwasanaeth cerddoriaeth newydd cydweithredol ac wedi darparu gwelliannau i gyfleusterau. Fodd bynnag, bydd ein gallu i ddarparu cyfleusterau newydd yn dibynnu ar gyllid allanol. Rydym hefyd yn gweithio i ddod â swyddogaethau gwella ysgolion yn ôl o fewn rheolaeth y Cyngor, sy'n ddarn sylweddol o waith.

## 4. Tai

Rydym wedi parhau gyda'n gwaith da i ddatblygu ein Strategaeth Tai, gyda phwyslais clir ar adolygu nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr dai a defnyddio eiddo gwag unwaith eto. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith da i gefnogi darpariaeth tai fforddiadwy yn y sir, ac yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y nifer dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn parhau i wneud gwelliant amlwg gyda'r gwaith o atal digartrefedd; ond wrth gwrs mae her sylweddol yn parhau o'n blaenau yn y maes hwn gyda galw mawr cyson. Mae lleihau dibyniaeth ar lety gwely a brecwast yn flaenoriaeth wrth i ni gynyddu nifer ac ansawdd ein portffolio llety dros

dro a brydlesir. Nod Cynllun Comisiynu newydd fydd symud buddsoddiad mwy i ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol a thai. Rydym yn edrych ymlaen yn 2026 i adolygu ein Strategaeth Tai, fydd yn cynnwys nifer o gynlluniau strategol sydd ar wahân ar hyn o bryd, fydd yn darparu dull mwy cyfannol at dai a digartrefedd yn y sir.

### 5. Lles

Mae’r Cyngor yn gwneud llawer iawn o waith i gefnogi lles, iechyd a diogelwch pobl yng Nghonwy. Mae llyfrgelloedd, theatrau a lleoliadau hamdden yn darparu gwasanaethau ataliol hanfodol, ac mae ein darpariaeth gofal cymdeithasol yn cefnogi’r rhai sydd â’r angen mwyaf. Rydym wedi datblygu nifer o brosiectau allweddol i wella ansawdd y ddarpariaeth gofal i blant ac oedolion yn ystod y flwyddyn, ac mae mwy i ddod yn 2025 i 2026. Yr heriau mwyaf sy’n ei hwynebu fel Cyngor wrth gwrs yw anghenion gofal a chostau gofal cynyddol. Mae effaith yr argyfwng costau byw yn parhau hefyd. Rydym wedi gwneud gwaith da i feithrin cydlyniant cymunedol ac i sicrhau bod ein cymunedau’n ddiogel a byddwn yn sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau er y pwysau parhaus o ran trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda’n partneriaid i helpu i ymdrin â’n holl heriau ble gallwn ni, yn enwedig yng nghyd-destun y galw cynyddol, y pwysau ariannol sylweddol a materion parhaus o ran gallu i gyflawni sy’n effeithio ar bob gwasanaeth.

## 6. Swyddogaethau Llywodraethu

### 6.1. Cynllunio Corfforaethol

Mae gennym strwythurau swyddogion ac aelodau cadarn i gefnogi cynllunio strategol yn y sefydliad ac rydym wedi cael ein sicrhau ein bod yn bodloni’r gofynion deddfwriaethol allweddol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a’r Rheoliadau (Cymru) 2011 dilynol. Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi dod i’r canlyniad nad oes problemau llywodraethu sylweddol ond mae’n tynnu sylw at bryderon am anawsterau ehangach gydag adnoddau, cymhwysedd staff a lles. Mae dealltwriaeth dda o’r problemau hyn ac mae angen gwneud gwaith sylweddol ar y materion hyn yn enwedig er mwyn gwneud yn siŵr bod staff yn cael eu cefnogi’n dda. Wrth ymateb i’r heriau ariannol y mae’r awdurdod yn ei wynebu, rydym wedi darparu cynllun ar wytnwch, defnyddio technoleg a thrawsnewid darpariaeth pan fo’n bosib. Yn hanfodol, rydym wedi adolygu ein Cynllun

Corfforaethol fel bod pwyslais cliriach ar wytnwch ariannol, rhesymoli ein hamcanion gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## 6.2. Cynllunio Ariannol

Mae gennym brosesau ariannol cryf ar waith fel Cyngor gyda goruchwyliaeth wleidyddol gref. Mae'r rhain wedi cael eu cryfhau yn ystod 2024 i 2025 drwy gyflwyno mwy o fodiwlau ariannol yn ein systemau rheolaeth ariannol fel bod mwy o oruchwyliaeth o gontractau a chaffael, y gyllideb a rhagweld, a phrynu â cherdyn. Byddwn yn parhau i fod mor llym â phosib wrth graffu cyllidebau gwasanaethau yn ystod 2025 i 2026 a thu hwnt ac yn gwneud popeth yn ein gallu i wneud y mwyaf o'r incwm a'r ffrydiau cyllid allanol. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i weithredu modelau darparu gwasanaeth gwahanol, croesawu technolegau a mentrau newydd a chydweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol (yn y sir a'r rhanbarth) i ddarparu a dylanwadu ar y galw ar wasanaethau pan fo'n bosib.

## 6.3. Rheoli Perfformiad

Mae gennym drefniadau rheoli perfformiad cadarn yn eu lle sy'n gyfrifol am amryw o weithgareddau o'n Cynllun Corfforaethol i reoli rhaglen a phrosiect, adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, canmoliaethau a chwynion, gwaith rheoleiddio a gweithgareddau'r pwyllgorau allweddol. Ar ôl rhesymoli'r Cynllun Corfforaethol yn ystod 2024 i 2025 rydym wedi adolygu a chryfhau fframwaith perfformio'r Cynllun i wella meincnodi ac yn y pen draw, y wybodaeth o safbwynt y defnyddiwr. Ynghyd â gwelliannau i'n dulliau adrodd ar Hunanasesiad a'n hadolygiad o'r broses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth, byddwn mewn sefyllfa i wneud diweddariadau sylweddol i'n Fframwaith Rheoli Perfformiad yr haf hwn a'u dwyn gerbron democratiaeth, gan sicrhau bod ein trefniadau'n addas i anghenion y sefydliad. Rhan olaf y gwaith hwn fydd cyflwyno arolwg ymgysylltu newydd i fudd-ddeiliaid, fydd yn darparu data blynyddol ar gyfer ein Hadroddiadau Hunanasesiad o Berfformiad. Bydd ein hadolygiad o brosesau busnes a threfniadau democrataidd hefyd yn gwella ein goruchwyliaeth o faterion perfformiad a bydd effeithiolrwydd craffu, er enghraifft yn un maes ble bydd aelodau'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

## 6.4. Rheoli Risg

Mae gennym brosesau aeddfed ar waith ar gyfer rheoli risg a phroblemau gyda digon o ymgysylltu gan swyddogion ac aelodau. Rydym wedi gwneud gwaith sylweddol yn ystod 2024 i 2025 i adolygu'r cofrestrau risg a materion corfforaethol, gan resymoli eu cynnwys

wrth ei gwneud yn fwy defnyddio i gefnogi trafodaethau strategol gobeithio. Rydym wedi rhoi perchnogaeth strategol o'r gofrestr ddiwygiedig i'r Tîm Arwain Strategol a'r Cabinet ac wedi cyflwyno proses o archwilio'n fanwl gyda'r Tîm Arwain Strategol i graffu'n fanylach ar risgiau a'r rheolyddion sydd ar waith. Wedi i allbynnau'r adolygiad gael eu cymeradwyo gan ddemocratiaeth, bydd ein Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei ddiweddaru a'i rannu â gwasanaethau, a bydd swyddogion ac aelodau'n cael hyfforddiant newydd.

## 6.5. Cynllunio'r Gweithlu

Mae'r heriau ariannol sy'n dal i'n hwynebu (ac a fydd yn parhau yn y dyfodol agos) yn rhoi cryn bwysau ar ein gweithlu. Mae absenoldeb staff wedi cynyddu, a straen a gorbryder yw rhai o'r prif achosion. Rydym wedi nodi hyn fel maes i'w wella. Rydym yn cymryd ein dyletswydd gofal am staff o ddifri ac yn gweithredu nifer o fesurau i gefnogi iechyd a lles staff. Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi cyhoeddi ein datganiad cyflogau, adolygu ein polisi gwrth-aflonyddwch, rhoi dull newydd ar waith o gynnal cyfarfodydd un i un (Sgwrs Conwy), datblygu llwybr cynnydd i weithwyr preswyl plant, lansio rhaglen hyfforddi i raddedigion gwaith cymdeithasol, cyhoeddi canllawiau newydd ar gynllunio'r gweithlu, adolygu'r Polisi Cwynion Corfforaethol a rhoi gofynion newydd ar waith yn codi o ddeddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Rydym yn cynllunio mwy o waith i helpu i gryfhau ein diwylliant a chefnogi amgylchedd ble mae gweithiwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt lais. Byddwn hefyd yn parhau gyda chyflawni ein Cynllun Dysgu a Datblygu sydd nid yn unig yn cefnogi datblygiad personol a phroffesiynol ond hefyd yn cefnogi iechyd a lles. Mae gennym lawer o waith i'w wneud hefyd mewn hyrwyddo Conwy Gynhwysol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb unigol ar gyfer cynhwysiant.

## 6.6. Asedau

Yn ystod 2024 i 2025 rydym wedi parhau i ddangos ein bod yn rhagweithiol yn y ffordd rydym yn rheoli asedau allweddol ac nad oes arnom ofn gwneud penderfyniadau anodd. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud eleni i ddatblygu ein strategaeth gofod swyddfa yn dangos hyn yn benodol, ond hefyd drwy benderfyniadau a wnaed i waredu, prydlesu neu newid defnydd eiddo yn ein portffolio. Rydym wedi cael ein sicrhau bod trefniadau cadarn yn parhau ar waith ar gyfer ein hasedau a'n hisadeiledd TGCh gydag ymagwedd ragweithiol i reoli risg yn benodol. Heb amheuaeth bydd penderfyniadau anoddach fyth i'w gwneud am ein hasedau yn y dyfodol wrth i ni ymateb i heriau ariannol. Bydd pob ymdrech

yn cael ei gymryd i sicrhau bod effaith y penderfyniadau hynny'n cael eu hasesu a'u deall yn llwyr a bod egwyddorion cyfranogi'n cael eu gweithredu drwyddo.

## 6.7. Caffael

Mae gennym gefnogaeth a phrosesau caffael effeithiol ar waith ac rydym yn gwneud cynnydd da gyda'r Strategaeth Gaffael 2023 i 2028, i sicrhau ein bod yn parhau i reoli ein gwariant yn gyfrifol ac yn sicrhau gwerth am arian. Rydym wedi gwneud penderfyniadau caffael allweddol yn ystod y flwyddyn o ran dyfarnu contractau, gan gefnogi amrywiaeth o brosiectau gofal cymdeithasol, addysg, yr amgylchedd ac adfywio. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith sylweddol yn ystod y cyfnod diweddaraf hwn i baratoi at weithredu deddfwriaeth gaffael newydd. Mae hyn yn newid sylweddol yn y ffordd mae caffael yn digwydd yn y sector cyhoeddus ac mae'n debygol y bydd rhai heriau'n codi wrth iddo gael ei sefydlu. Bydd angen llawer mwy o amser a gwaith cynllunio i fodloni'r gofynion hysbysu, er enghraifft cyn y gallwn gaffael unrhyw waith, nwyddau neu wasanaethau a bydd angen newid y diwylliant mewn gwasanaethau o ran yr ymagwedd at gaffael.